# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Chwefror 2021

Amser: 09.23 - 12.19

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11056

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Nick Ramsay AS (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AS<br>Vikki Howells AS<br>Delyth Jewell AS<br>Darren Millar AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Andrew Slade, Llywodraeth Cymru<br>Sioned Evans, Llywodraeth Cymru<br>Tracey Burke, Llywodraeth Cymru<br>Steve Davies, Llywodraeth Cymru |
| Archwilio Cymru: | Adrian Crompton (Archwilydd Cyffredinol Cymru)<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor

## 2 Papur(au) i’w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2a Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Ei Wneud yn Wahanol, Ei Wneud yn Iawn? Llywodraethu yn y GIG yn ystod argyfwng COVID-19 – Themâu, gwersi a chyfleoedd allweddol

### 2b Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (28 Ionawr 2021)

### 2c Maes Awyr Caerdydd: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (1 Chwefror 2021)

### 2d Sicrhau bod grantiau datblygu gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (1 Chwefror 2021)

## 3 Myfyrdod ar y Pumed Cynulliad/y Pumed Senedd: Llywodraeth Cymru – yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol

3.1 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn gydag Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol - Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ynghylch ei fyfyrdod ar y Pumed Cynulliad/Senedd i helpu i lywio Adroddiad Gwaddol y Pwyllgor.

4.3 Cytunodd Andrew Slade i anfon rhagor o wybodaeth ynghylch nifer o faterion.

## 4 Myfyrdod ar y Pumed Cynulliad/y Pumed Senedd: Llywodraeth Cymru – Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

4.1 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn gyda Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol – y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch ei myfyrdod ar y Pumed Cynulliad/Senedd i helpu i lywio Adroddiad Gwaddol y Pwyllgor.

4.2 Cytunodd Tracey Burke i anfon rhagor o wybodaeth am nifer o faterion.

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Trafod yr Ymateb gan Gomisiwn y Senedd

5.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb Comisiwn y Cynulliad i'r Craffu ar Gyfrifon 2019-20 a'i nodi.

5.2 Cytunwyd bod yr Adroddiad Gwaddol yn cynnwys argymhelliad i'r Pwyllgor olynol barhau i drafod Dangosyddion Perfformiad Allweddol gyda Chomisiwn y Senedd yn ystod ei waith craffu blynyddol ar y cyfrifon.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Myfyrdod ar y Pumed Cynulliad/y Pumed Senedd: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth a gafwyd a'r hyn yr oeddent am ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Gwaddol.